**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF GYNHALIWYD YN LLYFRGELL BENLLECH. 26-06-2023 AM 7 O'R GLOCH**

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr | John Humphreys<br>Barbara Gall<br>Graham H Roberts<br>Rhian Mair Jones (Cadeirydd)<br>Ieuan Williams<br>Kevin Griffiths<br>Barbara Price<br>Wenda Owen (rhan o'r cyfarfod) |
| Ymddiheuriadau | Dafydd Humphreys (Clerc a Swyddog Ariannol)<br>Rhodri Owen<br>Sioned Wyn<br>Gwyneth Davies |
| Hefyd yn bresennol | Enid Williams (Clerc Pentraeth a Rhoscefnhir)<br>Eira Parry (Cyfieithydd)<br>Geraint Stello (Ymddiriedolaeth y Wiwer Goch) – Siaradwr Gwadd |

Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i Enid WIliams yn dirprwyo ar ran Dafydd Humphreys a Geraint Strello, Siaradwr Gwadd o Ymddiriedolaeth y Wiwer Goch.

**1. Cyflwyniad Geraint Strello Gŵr Gwadd**

Rhoddwyd cefndir rhaglen yr Ymddiriedolaeth ar yr ynys, er sei gychwyn dros y 30 mlynedd yn ô lyng Nghoedwig Malltraeth gyda Esme Kirby yn un o'r sefydlwyr. Erbyn hyn maent tua 800 mewn nifer, ac amcangyfrifir eu bod werth tua milwn mewn incwm twristiaeth. Mae'r risg yn parhau oddi wrth y wiwer lwyd a'r clefyd mae'n ei gario. Bu Geraint mewn trafodaethau gyda Dafydd Humphreys am ffyrdd i gynyddu defnydd o'r llwybrau cyhoeddus yn yr ardal ac os byddai defnyddio presenoldeb y wiwerod o gymorth i'w hyrwyddo byddai Geraint y hapus i gynorthwyo. Awgrymwyd gosod camerau mewn mannau penodol i'w gweld. Costau camerau safonol rhwng £60 a £100. Gallent fod o ddiddordeb i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Awgrymodd drafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru neu drafod gyda Swyddog Bywyd Gwyllt CSYM – Aurora Hood am y posibilrwydd o gael grantiau ar gyfer hyn.

Cyngh GR – awgrymu rhai llwybrau yn ymyl y Feddygfa allai fod yn addas. Gellid ei gyfuno hefo'r cynllun Meddyginiaeth Gwyrdd a hyrwyddir er llesiant ar hyn o bryd.

GS – pwysig peidio eu denu i ardaloedd lle mae lefel uchel o draffig a chreu risg iddynt.

Cyngh RhM – pwysig datblygu libart, a gellid cyfuno hefo ail-blannu rhywogaethau coed yn lle'r coed ynn sy'n diflannu.

CYngh GR – mae wiwerod i'w gweld yn gyson yng Nghoed y Glyn

GS -pwysig plannu coed lle mae bylchau mewn cloddiau.

Cyng IW – ardal Marianglas drwodd at Llanfair ME hefyd yn ardal dda i'w gweld.

Cyngh KG – pobl y neu bwydo yn ardal Craig y Don.

Cyngh JH – yn ymholi os oes modd cael arwyddion ychwanegol i ddynodi ardal wiwer goch.

GS- terfynwyd y drafodaeth gyda chynnig gan GS i ddychwelyd eto os allai fod o gymorth.

**2. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Neb yn bresennol.

**3. Derbyn Cofnodion Cyfarfod Cyngor 22.5.23**

- Sul y Cofio – wedi mynd mewn trefn
- Ymgynghoriad AONB a Thwristaeth – ymateb wedi ei anfon ar ran y Cyngor.

Cynigiwyd derbyn y Cofnodion yn gywir gan y Cynghorydd KG, ac eiliwyd gan y Cyngh JH.

**4. Calendr y Flwyddyn**

– nodwyd na fydd cyfarfod yn Gorffennaf ac Awst oherwydd ei bod yn anodd cael cworwm. Hefyd bydd y clerc ar ei wyliau yn ystod y cyfnod yma, gan bod ganddo gryn wyliau'n ddyledus iddo. Dim cyfarfod yn Rhagfyr.

Cynigiwyd derbyn y Calendr gan y Cyngh GR ac eiliwyd gan y Cyngh JH.

**5. Camau Gweithredu**

– popeth mewn gwyrdd wedi ei gwblhau, glas – aelodau i gwblhau; melyn – Gwaith yn parhau.

- Arwyddion Mariannau - angen mwy o arwyddion gwaredu baw ci. Arwydd yn y sgwar am y toiledau.
- Meinciau – prisiau wedi eu cael am £300, yn cynnwys tynnu'r hen goed ac ail-goedio. Gadael i'r Clerc flaenoriaethu lle roedd mwyaf o angen adnewyddu. Cynigiodd y Cyngh GR brynu meinciau composit. Awgrymodd y Cyng WO gael prisiau gan gyflenwr arall ond nodwyd gan y Cadeirydd ei bod yn anodd cael neb yn barod i ymgymryd â'r Gwaith.

<u>Cynigiodd y Cyngh IW adnewyddu 5 am £1,500 a chael pris rhai composit am rai ychwanegol, a derbyniwyd y cynnig. Angen sicrhau eu bod o ddefnydd ailgylchwyd</u>.

- Biniau ychwanegol dros yr haf – adroddodd y Cadeirydd ei bod yn dalcen caled cael rhai ychwanegol yn ystod yr haf. Cynigiodd y Cyngh IW gael gair pellach i bledio'r achos gyda'r adran yn CSYM. Awgrymwyd bod y Cyngor yn talu am rai ychwnegol a chael BIFA i'w gwagio. Biniau ychwanegol yn cael eu rhoi ym Miwmares oherwydd mai eiddo'r Cyngor yw'r Pier.
- Ymweliad i Bartneriaeth Ogwen. – ymweliad gwych. Roeddent wedi gallu sicrhau cyllid ychwanegol i gychwyn a sefydlu'r Bartneriaeth ond wedi datblygu gyda syniadau gwych. Angen edrych ar efelychu rhai o'r syniadau yn yr ardal yma pan fydd incwm o adolygiad tendrau y toiledau a'r Maes parcio wedi eu cwblhau. Syniad I hau hedyn – creu Gardd Gymunedol neu Ardd Goffa. Awgrymwyd cefn SPAR fel lleoliad posibl. Gair o rybudd gan y Cyngh IW – mae angen Gwaith cynnal a chadw cyson, ond byddai'n holi Dylan Edwards am berchnogaeth y tir yma. Awgrymodd y Cyng KG bod mwy o botensial yn y tir ger Craig y Don.
- Grant y Co-op – dim gwybodaeth bellach
- Cyngh RhM a JH – edrycheto ar grantiau yn gysylltiedig â'r wiwer goch.
- Gwerthuso Gwaith y Clerc – awgrymodd y Cyng WO byddai gan Un LLais Cymru dempled. Nododd y Cyngh IW bod gwelliant aruthrol wedi bod ers penodi DH ac oni ddylai hynny fod yn ddigonol? Nododd y Cyngh WO bod gwerth yn y broses i sicrhau gwelliant parhaus ac ategodd y Cyngh JH bod gwerthuso yn broses ddwy-ffordd yn rhoi cyfle i'r Clerc hefyd leisio unrhyw anfodlonrwydd neu bryderon, ac felly'n ymarfer da. Cytunwyd bod yr Pwyllgor Cyllid/ Panel Adnoddau Dynol i ymgymryd â gosod meini prawf a'i gynnwys fel ymarfer blynyddol.

<u>Cynigiwyd gweithredu hyn gan y Cyng IW ac eiliwyd gan y Cyng KG</u>.

**6. Gohebiaeth**

**6.1** Cais gan Janet Peerce am arwyddion ar lôn Gwenfro. Cytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn gwneud cais i'r Cyngor Sir am arwyddion. Gofynnwyd i'r clerc gydnabod y llythyr ac anfon at y Cyngor Sir.

**6.2** Cyfyngiadau gyrru 20mya. Trafodwyd bod angen ardaloedd ychwanegol

- Lôn y Traeth

- Siop Ty'n Gongl/ Llys Paradwys, Minffordd am Llanfair M E a Marian-glas.
- Llanbedrgoch – o Bryn Eurad i gongl yr eglwys, ac o'r sgwar at yr ysgol

Rheoleiddio Traffig – ymestyn 'dim parcio' at Craig y Don a siop 'Beds & Stuff'
Nododd y Cyngh IW bod un person wedi gorfod rhoi 'cones' allan i fedru cael ei char o'r garej ger Tyddyn Fadog.
Adroddodd y Cyngh GR nad oedd y cyhoedd yn deall bob amser bod lleoliad llinellau wedi eu pennu oherwydd diogelwch ac nid er mwyn creu incwm ychwanegol ar gyfer y meysydd parcio.
Ymholwyd am arwyddion wrth y traeth gan y Cyngh WO.

**6.3** Sefyllfa traffig yn y sgwar - Deallwyd bod CSYM yn disgwyl canlyniad cais grant I Lywodraeth Cymru (yn annog cerdded a a beicio) ond ni fydd atebiad tan 2024. Nododd y Cyngh IW bod angen rhywbeth rwan nid mor bell I'r dyfodol, ac mai dyna oedd y prif bwnc pryder mewn cyfarfod diweddar o'r Fforwm Pobl Hŷn.
Cytunwyd gwahodd Dylan Williams a/neu Huw Percy unwaith eto i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, drwy lythyr gan y Clerc yn nodi cryfder teimlad y Cyngor am hyn.
Nododd y Cadeirydd y byddai angen sicrhau presenoldeb POB Cynghorydd os byddent yn cytuno derbyn y gwahoddiad.
Hefyd gofyn oedd ganddynt gynllun tymor byr at yr haf.

**6.4** Arnold Milburn, Trefi Môn (TCC/CCTV)– dim newid ar y funud (on hold)

**6.5** Nodwyd blaenoriaethau rhaglen waith CSYM.

**6.6** Datganiad Diddordeb Personol – Y Cyngh GR.

## 7. Y Fynwent

Manylion opsiynau wedi eu Cylchredeg yn flaenorol gan DH. Penderfynwyd cefnogi cynllun DH i godi traen o gwmpas rhan waelod y fynwent fel argymhellwyd gan Dafydd Humphreys (arall).
Nododd y Cyngh JH bod angen ail-wneud y 'soakaway'. Yn anffodus roedd bellach 3 bedd wedi eu hagor ar draws y soakaway oherwydd diffyg cyfarwyddyd clir gan y Clerc blaenorol.
Cynigiwyd bod cael contractwr lleol I ddod at JH, DH a RhO i edrych ar sut y gellid cael yr hen system i weithio, neu roi traen o'i amgylch.
Mynegodd y Cadeirydd bryder y byddwn wedi colli tywydd da i wneud y Gwaith, ac na fydd modd ei gwblhau yn y gaeaf. Awgrymwyd symud i wneud y traen rwan, ac ail-edrych ar y soakaway eto, efallai ymhen blwyddyn.
Cynigiodd y Cyngh IW bod y Gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud yn Awst/Medi yn Dilyn cyngor gan KR,DH,JH a RhO, ac eiliwyd gan y Cynghorwyr GR a WO.

## 8. Cyllid

**8.1** Awdurdodi Taliadau - Ymholiadau – Safe Hands – cadarnhawyd mai cwmni Paul Williams oedd hwn. Glanhau dwys (power wash) I'r Arosfan Bws – Gwaith tymhorol ac nid misol.
Cynigwyd awdurdodi'r taliadau fel y cyflwynwyd gan y Clerc, gan y Cyngh JH ac eiliwyd gan y Cyngh WO.

| Dyddiad<br>Date | Math<br>Type | Disgrifiad<br>Description | Gwerth<br>Value |
|---|---|---|---|
| 19/06/2023 | DPC | SAFE HANDS | -2600 |
| 15/06/2023 | DPC | ARWYDD , 1789096 , VIA MOBILE - LVP , FP 15/06/23 10 , 25132038851547000N | -89.47 |
| 14/06/2023 | D/D | PLAN.COM DD ACCOUN, 00285487R1 | -15.59 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14/06/2023 | BAC | JNS BROS BENLLEC , E W GRIFFITHS , FP 14/06/23 1438 , RP4659986974341900 | 100 | 25 |
| 09/06/2023 | POS | 4200 08JUN23 C , TESCO STORES 5194 , BANGOR GB | -23 | 25 |
| 08/06/2023 | D/D | PNET4989409-1 | -28.87 | 25 |
| 02/06/2023 | DPC | DAFYDD HUMPHREYS , SYMYD PLANNWR , VIA MOBILE - LVP , FP 02/06/23 10 , 48114234238618000N | -200 | 25 |
| 02/06/2023 | DPC | EIRACYFION21 , CYFIEITHU MAI , VIA MOBILE - LVP | -66 | 25 |
| 01/06/2023 | DPC | SADIE CRAVEN , TOILEDAU TOILETS , VIA MOBILE - LVP , FP 01/06/23 10 , 60130841737774000N | -682 | 25 |
| 01/06/2023 | DPC | BENLLECH COMMUNITY, RHODD , VIA MOBILE - LVP | -250 | 26 |
| 31/05/2023 | POS | 4200 30MAY23 C , CAFFI SEREN , BANGOR GB | -17.5 | 26 |
| 30/05/2023 | S/O | DAFYDD HUMPHREYS , CYFLOG , FP 30/05/23 30 , 38013959057458000N | -1795.05 | 26 |
| 24/05/2023 | DPC | CARU BENLLECH COMM, BLODAU , VIA MOBILE - LVP | -100 | 28 |
| 22/05/2023 | POS | 4200 19MAY23 , WWW.PHS.CO.UK , INTERNET GB | -1525.12 | 28 |
| 22/05/2023 | C/R | 516128 | 200 | 30 |
| 16/05/2023 | D/D | PLAN.COM DD ACCOUN, 00285487R1 | -15.59 | 29 |
| 16/05/2023 | DPC | DAFYDD HUMPHREYS , BACKPAY 2022 , VIA MOBILE - LVP , FP 16/05/23 10 , 16102948426373000N | -84.38 | 29 |
| 16/05/2023 | BAC | D HUMPHREYS , CORRECTION BACKPAY, FP 16/05/23 1041 , 200000001128719775 | 0.04 | 30 |

<u>Archwiliad</u>. – Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd wedi ei gymeradwyo. Angen yn awr i'r Cyngor Cymuned ei gymeradwyo ac anfon ymlaen at Archwilio Cymru.
Cynigiwyd gan y Cyngh IW ac eiliwyd gan pawb yn bresennol iddynt gael eu hanfon ymlaen.
Incwm o'r Rhandiroedd – ymholiad gan y Cyngh KR yw £15 am randir yn isel. Cyfanswm yr incwm ohonynt yn £200.
Cytunwyd gofyn i'r Clerc edrych ar brisiau rhai eraill – Biwmares, Llangefni, Llanfairpwll a'i roi ar agenda'r Cyfarfod nesaf.

**8.2**

**8.3**

**9. Ceisiadau Cynllunio**

**9.1** Bryn Llifon, Traeth Coch – dim gwrthwynebiad

**9.2** Hunters Cottage. Datganwyd diddordeb gan GR.
Derbyniwyd llythyr yn gwrthwynebu ar sail diogelwch ffordd ac effaith amwynedau cymdogion ac ar sail gor-ddatblygiad.
Yn dilyn pleidlais penderfynwyd gwrthwynebu'r cais ar sail diogelwch priffordd.

**9.3** Byngalo i'r Rheolwr yng ngwesty'r California. Nododd y Cadeirydd ei bod o blaid os oedd yn golygu gallu cadw'r dafarn ar agor fel amwynderli'r trigolion lleol
Cytunwyd cefnogi'r cais gyda'r amod ei fod ar gyfer anneddli'r Rheolwr, ac ar sail cynaladwyedd busnes lleol.

**9.4** Damedma Brynteg – dim gwrthwynebiad.
Penderfyniadau
Nodwyd y penderfyniadau ynglŷn â Sied Hunters Cottage a'r Wendon.

**10. Materion Cyflogaeth**

**10.1** Cynllun Pensiwn y Clerc . Trafodwyd trefnu cynllun pensiwn ar gyfer y Clerc gyda Cyngor Gwynedd
Costau ymuno CPG (ffigyrau 2022): £1500 + TAW, cyfanswm o £1800 gan CCLIME (taliad unwaith ac am byth)
Cyfraniadau o 6.5% oddeutu £151.66 gan ddeilydd y swydd
Costau misol CCLIME oddeutu £245. Côst o £1,800 (taliad unwaith ac am byth) ac yna £245
Cynigiwyd gweithredu ar hyn gan y Cyngh IW ac eiliwyd gan y Cyngh GR.

**10.2** Cais Gwyliau y Clerc
Trafodwyd y cais gwyliau roddwyd gerbron fel a ganlyn:
- Gwyliau Blynyddol Nifer 2022-2023 yn weddill 12
- Dyddiau (yn statudol) 2023-2024 24
- Cyfanswm o wyliau wedi cymryd 2023-2024 - 0
- Gwyliau yn weddill 36.

Cais – Gwyliau blynyddol a fflecsi o 24 Gorffennaf i 24 Awst, dychwelyd i'r gwaith 29 Awst. Cyfanswm o 20 diwrnod
Cytunwyd caniatau.

**11. Unrhyw Fater Arall**

**11.1** Bin ym maes chware Cae'r Berllan - Cyflwynwyd cais gan y Cyng BP i leoli biniau ail-gylchu yn y Cae Chwarae. Gofynnodd y Cyngh WO pwy fyddai'n gyfrifol am eu gwagio? Cytunwyd ei bod yn rhan bwysig o addysg plant i ail-gylchu. Ar hyn o bryd mae'r clirio sbwriel yn digwydd naill ai gan wirfoddolwyr neu gan DH ei hun. Yn Llangefni gwneir hyn yn ddyddiol ond dim yn glir ai'r Cyngor Tref ynteu CSYM sy'n gyfrifol. Cytunodd y Cyngh IW i wneud ymholiadau gyda Ifan a Dafydd, CSYM.

**11.2** Noson Casglu Sbwriel . Yn dilyn trafodaeth cytunwyd bod aelodau'r Cyngor Cymuned yn cynnal noson gasglu sbwriel ar y noson fyddai'r Cyngor Cymuned wedi cyfarfod yn arferol. Gwahodd aelodau'r cyhoedd a Caru Benllech i ymuno gyda hwy.
Cyfarfod nos Lun, Gorffennaf 24ain am 6.30 o'r gloch wrth y Llyfrgell. Lleoliadau i'w hystyried – Glan y Môr, Cefn SPAR, Croesffordd at Lôn y Glyn, a'r Parc.
Bagiau, Menig, ffyn bachu sbwriel ac ati i'w ceisio gan y Cyngor Sir.
(Sglodion a Pheint i ddilyn!!)

**11.3** Materion at Raglen Cyfarfod Medi
Cais Richard O'Neill – Llanbedrgoch - cyflymder o Ty'n y Gongl
Arwyddion fel rhai Moelfre

Terfynwyd y cyfarfod am 8 o'r gloch.

**MINUTES OF THE LLANFAIR MATHAFARN COMMUNITY COUNCIL HELD AT BENLLECH LIBRARY. 26-06-2023 AT 7 O'CLOCK**

| | |
|---|---|
| Councillors | John Humphreys<br>Barbara Gall<br>Graham H Roberts<br>Rhian Mair Jones (Chair)<br>Ieuan Williams<br>Kevin Griffiths<br>Barbara Price<br>Wenda Owen (part of the meeting) |
| Apologies | Dafydd Humphreys (Clerk and RFO)<br>Rhodri Owen<br>Sioned Wyn<br>Gwyneth Davies |
| Also present | Enid Williams (Clerk, Pentraeth and Rhoscefnhir)<br>Eira Parry (Translator)<br>Geraint Stello (Red Squirrel Trust) – Guest Speaker |

The Chair extended a welcome to the meeting to Enid Williams deputising on behalf of Dafydd Humphreys and Geraint Strello, Guest Speaker from the Red Squirrel Trust.

**1. Introduction Geraint Strello Guest**

The background of the Trust's program on the island was given, although it started over 30 years ago in Malltraeth Forest with Esme Kirby as one of the founders. Red squirrels are now around 800 in number, and it is estimated that they are worth around a million pounds in tourism income. The risk continues from the grey squirrel and the disease it carries. Geraint was in discussions with Dafydd Humphreys about ways to increase the use of the public paths in the area and if using the presence of the squirrels would help to promote them Geraint would be happy to help. It was suggested to install cameras in specific places to see them. Standard cameras cost between £60 and £100. They could be of interest to locals and visitors alike. He suggested discussing with Natural Resources Wales or discussing with the IoACC Wildlife Officer - Aurora Hood about the possibility of getting grants for this.

Cllr GR – suggest some routes near the Surgery that might be suitable. It could be combined with the Green Medicine scheme which is currently being promoted for well-being.

GS – important not to attract them to areas where there is a high level of traffic and create a risk for them.

Cllr RhM - important to develop Y Libart, and could be combined with replanting tree species to replace the disappearing ash trees.

GR - squirrels are regularly seen in Coed y Glyn

GS - important to plant trees where there are gaps in banks.

Cllr IW – Marianglas area through to Llanfair ME is also a good area to see.

Cllr KG – people or feeding in the Craig y Don area.

Cllr JH – inquires if it is possible to get additional signs to designate a red squirrel area.

GS- the discussion ended with an offer from GS to return again if he could be of help.

**2. Public Participation**

No one present.

**3. Receive Council Meeting Minutes 22.5.23**

- Remembrance Day - gone in order
- AONB and Tourism Consultation - response sent on behalf of the Council.

It was proposed to accept the Minutes correctly by Councillor KG, seconded by Cllr JH.

**4. Council Calendar -** it was noted that there will be no meeting in July and August because it is difficult to get a quorum. Also the clerk will be on holiday during this period, as he has a lot of holiday due to him. No meeting in December.
It was proposed to accept the Calendar by Cllr GR and seconded by Cllr JH.

**5.** Actions – everything in green completed, blue – member action; yellow – Work in progress

- Marian Signs - need more dog poo signs. A sign in the square about the toilets.
- Benches - prices obtained for £300 for restoration. Allow the Clerk to prioritise where renovation was most needed. Cllr GR proposed to buy composite benches. Cllr WO suggested getting prices from another supplier but the Chair pointed out that it was difficult to get anyone ready to undertake the work.
- Cllr IW offered to renew 5 for £1,500 and get the price of some composites for additional ones, and the offer was accepted. Need to ensure they are of recycled use.
- Additional bins over the summer - the Chair reported that it was a difficult task to get extra bins during the summer. Cllr IW proposed to plead the case, again, with the department at IoACC. It was suggested that the Council pay for the extras and get BIFA to empty them. Additional bins are given in Beaumaris because the Pier is the property of the Council.
- Visit to Partneriaeth Ogwen. – great visit. They had been able to secure additional funding to start and establish the Partnership but developed with great ideas. Need to look at simulating some of the ideas in this area when income from the tender review of the toilets and the car park have been completed. Idea - create a Community Garden or Memorial Garden. The back of SPAR was suggested as a possible location. A word of warning from Cllr IW - constant maintenance work is required, but he would ask Dylan Edwards about the ownership of this land. Cllr KG suggested that there was more potential in the land near Craig y Don.
- Co-op Grant – no further information.
- Cyngh RhM a JH – look again at grants in connection with the red squirrel.
- Clerk's Appraisal - Cllr WO suggested that Un Llais Cymru would have a template. Cllr IW noted that there has been a tremendous improvement since the appointment of DH and shouldn't that be sufficient? Cllr WO noted that there is value in the process to ensure continuous improvement and Cllr JH confirmed that an appriasal/ evaluation is a two-way process giving the Clerk the opportunity to voice any dissatisfaction or concerns, and therefore good practice. It was agreed that the Finance Committee/ Human Resources Panel should undertake the setting of criteria and include it as an annual.
  <u>This action was proposed by Cllr IW and seconded by Cllr KG.</u>

**6. Correspondence**

**6.1** Request from Janet Peerce for signs on Lôn Gwenfro. It was agreed that the Community Council make a request to the County Council for signs. The Clerk was asked to acknowledge the letter and send it to the County Council.

**6.2** 20mph speed limits. It was discussed that additional areas were needed
- Lôn y Traeth / Beach Road
- Siop Ty'n Gongl/ Llys Paradwys, Minffordd towards Llanfair M E and Marian-glas.

- Llanbedrgoch - from Bryn Eurad to the corner of the church, and from the square to the school

Traffic Regulation - extending 'no parking' to Craig y Don and the 'Beds & Stuff' shop

Cllr IW noted that one person had to put out a 'cone' to be able to get her car from the garage near Tyddyn Fadog

Cllr GR reported that the public did not always understand that the location of yellow lineswas determined for safety reasons and not to generate additional income for the car parks.

Cllr WO inquired about signs at the beach.

**6.3** Traffic situation in the square - It was understood that IoACCis expecting the result of a grant application to the Welsh Government (encouraging walking and cycling) but there will not be an answer until 2024. Cllr IW noted that something is imminently, and that was the main topic of concern at a recent meeting of the Older People's Forum.

It was agreed to invite Dylan Williams and/or Huw Percy once again to be present at the next meeting of the Council, through a letter from the Clerk stating the strength of the Council's feeling about this.

The Chairman noted that it would be necessary to ensure the presence of ALL Councilors if they agreed to accept the invitation. Also to enquiry if they have a short term plan for the Summer.

**6.4** Arnold Milburn Trefi Môn (TCC/CCTV)– – no change at present (on hold)

**6.5** IoACC work programme priorities were noted.

**6.6** Declaration of Personal Interest – Cllr GR.

**7. Cemetery**

Details of options previously circulated by DH. It was decided to support DH's plan to raise a drain around the bottom of the cemetery as recommended by Dafydd Humphreys (other).

Cllr JH noted that the 'soakaway' needed to be redone. Unfortunately, there were now 3 graves opened across the soakaway due to a lack of clear instructions from the previous Clerk.

It was proposed to have a local contractor come to JH, DH and RhoO to look at how the old system could be made to work or put a drain around it.

The Chair expressed concern that we will have missed good weather to do the Work, and that it will not be possible to complete it during the winter. It was suggested to action the drain now, and re-examine the soakaway again, maybe in a year's time.

Cllr IW proposed that the necessary Work be done in August/September Following advice from KR, DH, JH and RhO, seconded by Councilors GR and WO.

**8. Cyllid**

**8.1** Payment Authorisation - Inquiry - Safe Hands - it was confirmed that this was Paul Williams' company. Intensive cleaning (power wash) To the Bus Stops - Seasonal work and not monthly.

It was proposed to authorise the payments as presented by the Clerk, by Cllr JH and seconded by Cllr WO.

| Dyddiad<br>Date | Math<br>Type | Disgrifiad<br>Description | Gwerth<br>Value | I<br>I |
|---|---|---|---|---|
| 19/06/2023 | DPC | SAFE HANDS | -2600 | 2 |
| 15/06/2023 | DPC | ARWYDD , 1789096 , VIA MOBILE - LVP , FP 15/06/23 10 , 25132038851547000N | -89.47 | 2 |
| 14/06/2023 | D/D | PLAN.COM DD ACCOUN, 00285487R1 | -15.59 | 2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14/06/2023 | BAC | JNS BROS BENLLEC , E W GRIFFITHS , FP 14/06/23 1438 , RP4659986974341900 | 100 | 25533. |
| 09/06/2023 | POS | 4200 08JUN23 C , TESCO STORES 5194 , BANGOR GB | -23 | 25433. |
| 08/06/2023 | D/D | PNET4989409-1 | -28.87 | 25456. |
| 02/06/2023 | DPC | DAFYDD HUMPHREYS , SYMYD PLANNWR , VIA MOBILE - LVP , FP 02/06/23 10 , 48114234238618000N | -200 | 25485. |
| 02/06/2023 | DPC | EIRACYFION21 , CYFIEITHU MAI , VIA MOBILE - LVP | -66 | 25685. |
| 01/06/2023 | DPC | SADIE CRAVEN , TOILEDAU TOILETS , VIA MOBILE - LVP , FP 01/06/23 10 , 60130841737774000N | -682 | 25751. |
| 01/06/2023 | DPC | BENLLECH COMMUNITY, RHODD , VIA MOBILE - LVP | -250 | 26433. |
| 31/05/2023 | POS | 4200 30MAY23 C , CAFFI SEREN , BANGOR GB | -17.5 | 26683. |
| 30/05/2023 | S/O | DAFYDD HUMPHREYS , CYFLOG , FP 30/05/23 30 , 38013959057458000N | -1795.05 | 26701. |
| 24/05/2023 | DPC | CARU BENLLECH COMM, BLODAU , VIA MOBILE - LVP | -100 | 28496. |
| 22/05/2023 | POS | 4200 19MAY23 , WWW.PHS.CO.UK , INTERNET GB | -1525.12 | 28596. |
| 22/05/2023 | C/R | 516128 | 200 | 30121. |
| 16/05/2023 | D/D | PLAN.COM DD ACCOUN, 00285487R1 | -15.59 | 29921. |
| 16/05/2023 | DPC | DAFYDD HUMPHREYS , BACKPAY 2022 , VIA MOBILE - LVP , FP 16/05/23 10 , 16102948426373000N | -84.38 | 29936. |
| 16/05/2023 | BAC | D HUMPHREYS , CORRECTION BACKPAY, FP 16/05/23 1041 , 200000001128719775 | 0.04 | 30021. |

<u>Audit</u>. – Cyngor Gwynedd's Internal Auditor has approved the Audit. The Community Council now needs to approve it and forward it to Audit Cymru.
It was proposed by Cllr IW and seconded by all present that they be submitted.

Income from the Allotments - inquiry from Cllr KR is £15 for an allotment too low. The total income from them is £200.
It was agreed to ask the clerk to look at the prices of some others - Beaumaris, Llangefni, Llanfairpwll and put it on the agenda of the next Meeting.

8.2

**8.3**

**9. Planning Applications**

**9.1** Bryn Llifon, Traeth Coch - no objection

**9.2** Hunters Cottage.
Interest was declared by GR.
A letter was received objecting on the grounds of road safety and the impact on neighbours' amenities and on the grounds of over-development. Following a vote it was decided to oppose the application on the basis of highway safety.

**9.3** Bungalow for the Manager at the California Hotel. The Chair noted that she was in favour if it meant being able to keep the pub open as an amenity for the local residents. It was agreed to support the application with the condition that it is for the Manager's dwelling, and based on the sustainability of local business.
Damedma Brynteg – no objection.

**9.4** Decisions
The decisions regarding Hunters Cottage Shed and the Wendon were noted.

**10. Employment Matters**

**10.1**
- Pension Scheme for the Clerk's. Arranging a pension scheme for the Clerk was discussed with Gwynedd Council.
- CPG joining costs (2022 figures): £1500 + VAT, a total of £1800 from CCLIME (one-off payment)
- Contributions of 6.5% approximately £151.66 from the post holder.
- The monthly costs of the CCLIME are approximately £245. Cost of £1,800 (one off payment) then £245.
- Action on this was proposed by Cllr IW and seconded by Cllr GR.

**10.2** Clerk's Annual Leave Request
Annual leave request put forward was discussed as follows:
- Number of Annual Holidays 2022-2023 remaining 12
- Days (statutory) 2023-2024 24
- Total leave taken 2023-2024 - 0
- Holidays remaining 36.

Application – Annual and flexi holidays from 24 July to 24 August, return to work 29 August. A total of 20 days. Agreed to approve the request.

**11. Any Other Business**

**11.1** Bin in the Playground - An application was submitted by Cllr BP to place recycling bins in the Playground. Cllr WO asked who would be responsible for emptying them? It was agreed that it is an important part of children's education to recycle. At the moment the litter clearing takes place either by volunteers or by DH himself. In Llangefni this is done daily but it is not clear whether the Town Council or IoACC is responsible. Cllr IW agreed to make inquiries with Ifan and Dafydd, IoACC.

**11.2** <u>Noson Casglu Sbwriel</u> . Yn dilyn trafodaeth cytunwyd bod aelodau'r Cyngor Cymuned yn cynnal noson gasglu sbwriel ar y noson fyddai'r Cyngor Cymuned wedi cyfarfod yn arferol. Gwahodd aelodau Caru Benllech i ymuno gyda hwy.
Cyfarfod nos Lun, Gorffennaf 24ain am 6.30 o'r gloch wrth y Llyfrgell. Lleoliadau i'w hystyried – Glan y Môr, Cefn SPAR, Croesffordd at Lôn y Glyn, a'r Parc.
Bagiau, Menig, ffyn bachu sbwriel ac ati i'w ceisio gan y Cyngor Sir.
(Sglodion a Pheint i ddilyn!!)

Materion at Raglen Cyfarfod Medi
Cais Richard O’Neill – Llanbedrgoch - cyflymder  o Ty’n y Gongl
Arwyddion fel rhai Moelfre
Litter Pick. Following discussion, it was agreed that the members of the Community Council hold a litter pick on the evening that the Community Council would normally have met. Invite to members of the community and Caru Benllech to join in.
Meet on Monday evening, July 24th at 6.30 o'clock at the Library.
Locations to consider - beach, behind SPAR, junction at Lôn y Glyn, and the playground.
Bags, Gloves, litter pick picks etc. to be obtained from the County Council.
(Chips and Pint to follow!!)
Matters for September Meeting
Richard O'Neill's application - Llanbedrgoch - speed from Ty'n y Gongl
**11.3** Signs like those in Moelfre.

The meeting ended at 8 o'clock.